Cyllid &
Thollau EM

Mawrth 2022

Annwyl trader/customer

Ar 1 Ionawr 2022, cafodd rheolaethau tollau llawn eu cyflwyno rhwng yr UE (ac eithrio ynys Iwerddon) a Phrydain Fawr. Hoffem ddiolch i chi am wneud cymaint i baratoi ar gyfer y rheolau newydd wrth y ffin.

Mae'r llythyr hwn yn cynnwys gwybodaeth am y newidiadau sydd ar y gweill i system dollau'r DU a'r hyn y mae angen i chi ei wneud i baratoi ar eu cyfer.

## Symud i un llwyfan tollau yn y DU

Mae angen i'n systemau TG fod yn addas ar gyfer y dyfodol er mwyn helpu i greu amgylchedd lle y gall fusnesau ffynnu, llwyddo a chymryd mantais o gytundebau masnach rydd, sy'n cefnogi ein cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer masnach fyd-eang.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi bod yn cydweithio gyda busnesau ar y Gwasanaeth Datganiadau Tollau, a fydd yn cymryd lle System y Tollau ar gyfer Trin Nwyddau a Gaiff eu Mewnforio a'u Hallforio (CHIEF) sydd bron yn 30 mlwydd oed erbyn hyn. Llwyfan diogel yw'r Gwasanaeth Datganiadau Tollau sydd â'r hyblygrwydd i dyfu'n unol â chynlluniau uchelgeisiol y llywodraeth o gael system dollau fwyaf effeithiol y byd erbyn 2025.

Y llynedd, cyhoeddom y byddai'r DU yn symud yr holl ddatganiadau tollau o CHIEF i'r Gwasanaeth Datganiadau Tollau. Bellach, rydym yn barod i ddatganwyr ddechrau symud at y system newydd, ac roeddem am roi rhagor o fanylion i chi i'ch helpu i baratoi, p'un a ydych yn gwneud eich datganiadau eich hun neu os oes gennych rywun sy'n gwneud hyn ar eich rhan.

Bydd cau'r system CHIEF yn digwydd mewn dau gam:

**Cam un:** Ar ôl 30 Medi 2022, bydd y gallu i wneud datganiadau mewnforio yn dod i ben

**Cam dau:** Ar ôl 31 Mawrth 2023, bydd y gallu i wneud datganiadau allforio yn dod i ben

Bydd y Gwasanaeth Datganiadau Tollau yn gweithredu fel unig lwyfan tollau'r DU. Bydd angen i bob busnes ddatgan yr holl nwyddau sy'n cael eu mewnforio a'u hallforio drwy'r Gwasanaeth Datganiadau Tollau ar ôl 31 Mawrth 2023.

## Paratoi i symud at y Gwasanaeth Datganiadau Tollau

Gall addasu i system newydd gymryd amser a bydd angen i chi baratoi ar ei chyfer. Rydym yn annog busnesau i weithio gyda'u datblygwr meddalwedd a dechrau symud tuag at ddefnyddio'r Gwasanaeth Datganiadau Tollau nawr gan gymryd mantais o'r cymorth gallwn ei gynnig.

I gael rhagor o wybodaeth am sut i ddechrau defnyddio'r Gwasanaeth Datganiadau Tollau, ewch i **GOV.UK** a chwilio am 'Customs Declaration Service'.

## Gwneud datganiadau mewnforio gan ddefnyddio'r Gwasanaeth Datganiadau Tollau

Gallwch ofyn i rywun arall gwblhau'r datganiadau ar eich rhan. Ewch i **GOV.UK** a chwilio am y canlynol:

- 'get someone to deal with customs for you'
- 'software developers providing customs declaration software' i ddod o hyd i ddarparwr meddalwedd wedi'i alluogi

## Os ydych yn defnyddio meddalwedd gan ddatblygwr meddalwedd

Dylai'ch datblygwr meddalwedd fod yn gweithio'n agos gyda ni er mwyn paratoi ar gyfer y Gwasanaeth Datganiadau Tollau. Mae hyn yn cynnwys diweddaru ei gymwysiadau a rhoi gwybod i chi pan fydd eich busnes yn barod i ddechrau defnyddio'r Gwasanaeth Datganiadau Tollau.

## Os ydych yn defnyddio meddalwedd a ddatblygwyd yn fewnol

Gall cwblhau datganiad mewnforio neu allforio fod yn gymhleth. Bydd angen meddalwedd sy'n cydweddu arnoch er mwyn gwneud hynny. Os oes gennych y feddalwedd gywir, yr awdurdodiadau a'r sgiliau, gallwch baratoi'ch hun ar gyfer symud at y system newydd. Ewch i **GOV.UK** a chwilio am 'Customs Declaration Service'.

## Os nad yw'ch meddalwedd yn barod neu os nad oes gennych y feddalwedd gywir

Os nad oes gan eich cyflenwr y feddalwedd yn barod i'w defnyddio, neu os ydych yn bwriadu cyflwyno'r datganiadau eich hun ewch i **GOV.UK** a chwilio am 'software developers providing customs declaration software' er mwyn cysylltu â rhywun a fydd yn medru gwneud hynny.

Os oes unrhyw gwestiynau gennych am y Gwasanaeth Datganiadau Tollau, cysylltwch â'ch Rheolwr Cyfrif neu'ch Rheolwr Cydymffurfiad Cwsmeriaid. Os nad oes gennych y naill neu'r llall o'r rhain, defnyddiwch y manylion cyswllt yn yr adran help a chymorth isod i siarad â ni.

## Help a chymorth

Gwyddom fod ymgyfarwyddo â rheolau a systemau newydd yn gallu bod yn her. Byddwn yn rhoi pob cymorth posibl i chi er mwyn cael pethau'n iawn.

Os nad ydych yn teimlo'n hyderus o hyd wrth fodloni'ch rhwymedigaethau tollau:

- ewch i **GOV.UK** a chwilio am 'import, export and customs for businesses' i gael arweiniad ar fewnforio ac allforio, ac i weld ein rhestr wirio ar gyfer masnachwyr
- gwyliwch ein fideos a gweminarau sydd wedi'u recordio sy'n trafod pynciau megis mewnforion, allforion, rheolau o ran tarddiad a datganiadau mewnforio ac allforio - chwiliwch am **@hmrcgovuk** ar YouTube

Os oes gennych gwestiwn o hyd, neu os oes angen help arnoch gydag un o'n systemau TG, ffoniwch ein llinell gymorth Tollau a Masnach Ryngwladol ar 0300 322 9434. Mae'r llinell gymorth ar gael o 8am i 10pm, dydd Llun i ddydd Gwener ac 8am i 4pm dros y penwythnos.

Gallwch hefyd ffonio'r rhif hwn a dewis opsiwn un i gael mynediad at ein gwasanaeth gofal allweddol sydd ar gael bob awr o'r dydd. Defnyddiwch y gwasanaeth hwn os oes angen cyngor brys arnoch, er enghraifft, os oes gennych anawsterau â'ch nwyddau wrth y ffin.


Am ffyrdd eraill o gysylltu â ni am fewnforio, allforio a rhyddhad rhag tollau chwiliwch am 'imports and exports: general enquiries' ar **GOV.UK**.

Os ydych chi'n allforio i'r UE, gallwch gysylltu â'r tîm TAW, Tollau ac Ecséis ar **GOV.UK** drwy chwilio am 'Ymholiadau TAW, Tollau ac Ecséis' neu ffonio 0300 200 3705.

Efallai eich bod hefyd yn ymwybodol o'r newidiadau sydd ar y gweill o ran gofynion diogelwch wrth fewnforio nwyddau o'r UE i Brydain Fawr a'r gofynion o ran mewnforio nwyddau sy'n destun rheolaethau iechydol a ffytoiechydol, gan gynnwys cig, cynnyrch llaeth, ffrwythau a llysiau.

Byddwn yn ysgrifennu atoch eto gyda rhagor o fanylion ynghylch y rhain a sut y gallwn eich cefnogi i baratoi. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, gwiriwch yr arweiniad yn **GOV.UK** neu cysylltwch â ni gan ddefnyddio'n llinellau cymorth uchod.

Yn gywir



**Katherine Green a Sophie Dean**

Cyfarwyddwyr Cyffredinol, Ffiniau a Masnachu, CThEM